Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Gwener, Mai 29ain, 2009 am 6.45 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Y Cyng Hugh Towns, Y Cyng Richard Wallace, Y Cyng Colin Jenkins, Y Cyng Ros Bellamy, Y Cyng Ieuan Gwyn, Y Cyng Roy Davies, Y Cyng Dawn Wallace, Y Cyng Christopher Parish
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref), Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau Y Cyng Fran Murphy, Y Cyng Julia Jones.

Cof 57 / Mai / 07 Anerchiad y Maer

Dywedodd y Maer, y Cyng Edward Thomas ei fod wedi mwynhau ei flwyddyn yn Faer. Roedd yn anrhydedd cael gwasanaethu'r Dref a'i phobl. Roedd yn bleser cael gweithio dros achosion yr oedd trigolion lleol yn teimlo'n gryf drostynt. Credai'r Cyng Thomas fod llawer wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ond bod llawer ar ôl i'w wneud, yn enwedig mewn perthynas â gwella cyfleusterau hamdden megis pwll nofio. Diolchodd i'w gyd Gynghorwyr am eu help a'u cefnogaeth. Diolchodd hefyd i swyddogion y Cyngor am eu gwaith clodwiw.

Cof 58 / Mai / 09 Enwebiad Maer 2009 -10

Cynigiwyd y Cyng Charlotte Leadbeater gan y Cyng Ros Bellamy. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
Derbyniodd y Cyng Charlotte Leadbeater y swydd. Darllenodd ei Datganiad Derbyn Swydd ac arwyddodd y llyfr.
Cyflwynodd y Cyng Edward Thomas y Gadwyn i'r Maer newydd. Cyflwynwyd Medal y Cyn Faer i'r Cyng Edward Thomas.

Cof 59 / Mai / 09 Anerchiad y Maer Newydd.

Diolchodd y Cyng Charlotte Leadbeater i'w chyd Gynghorwyr am ei henwebu yn Faer. Roedd o'r farn ei bod yn anrhydedd ac yn fraint fawr i gynrychioli Tref Llandeilo sy'n golygu cymaint iddi hi a'i theulu. Dywedodd y Cyng Leadbeater ei bod wedi ymwneud â llawer o fudiadau yn y Dref, yn arbennig felly Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl i'r Dref. Roedd yn gobeithio y byddai'n gallu gwneud gwaith i'r un safon â'r Maer blaenorol, y Cyng Edward Thomas, a diolchodd iddo ar ran y Cyngor cyfan.

Cof 60 / Mai / 09 Gohirio Cyfarfod

Gohiriwyd y cyfarfod gan y Maer i'w ailddechrau yn Neuadd y Sir ddydd Mercher, Mehefin 3ydd, 2009 am 7.30 p.m.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15pm

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk